TGAU Gwneud-i-Gymru: *Crynodeb o'r Adroddaid Ymgynghoriad*

Mehefin 2023

1. Cyflwyniad

1.1. Dyma grynodeb o'n hadroddiad sy'n esbonio'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud ar y gofynion dylunio (meini prawf cymeradwyo) ar gyfer cyfres newydd o gymwysterau TGAU wedi'u Gwneud-i-Gymru, yr ymgynghorwyd arnynt ddiwedd 2022. Bydd y cymwysterau newydd hyn yn helpu dysgwyr i gael y gorau o'u profiad o'r Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm).

1.2. Ochr yn ochr â'r crynodeb hwn, gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad, ynghyd â chyfres o adroddiadau manylach yn esbonio'r gofynion yr ydym wedi'u gosod ar gyfer pob pwnc TGAU, ynghyd â chrynodeb a dadansoddiad o'r adborth i'r ymgynghoriad. Rydym hefyd wedi cynhyrchu adroddiad yn addas ar gyfer pobl ifanc, sy'n crynhoi ac yn egluro'r penderfyniadau allweddol yr ydym wedi'u gwneud ar draws pynciau.

1.3. Mae'r set gyflawn o feini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ar gael ar ein gwefan.

1.4. Rydym yn ddiolchgar i bawb a rannodd ac a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a gyfrannodd at gyd-greu'r gofynion hyn. Mae eich mewnbwn wedi bod yn amhrisiadwy o ran ein helpu i gwblhau ein penderfyniadau ac o ran siapio'r cymwysterau fydd dysgwyr yn eu hastudio yn y dyfodol.

2. Cefndir

2.1. Gyda'r Cwricwlwm yn newid, mae angen i gymwysterau newid hefyd – gan ddechrau gyda chymwysterau TGAU – i adlewyrchu beth a sut mae pobl ifanc yn cael eu haddysgu.

2.2. Fel rhan o'n prosiect *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*, rydym yn diwygio'r holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus sydd ar gael i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed yng Nghymru.

2.3. Yn dilyn ein hymgynghoriad ar ddyluniad arfaethedig cymwysterau TGAU newydd, aethom ymlaen i ymgynghori ar gynigion ar gyfer ail-lunio'r Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad diweddarach hwn ym mis Ionawr 2024.

2.4. Yn y crynodeb hwn a'r adroddiadau manwl cysylltiedig, rydym yn canolbwyntio ar y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud yn dilyn ein hymgynghoriad ar sut y gellir dylunio cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd er mwyn helpu dysgwyr i wireddu dibenion y Cwricwlwm.

2.5. Rydym yn hyderus y bydd y cymwysterau newydd hyn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Cwricwlwm, drwy gynnig:

- mwy o hyblygrwydd a dewis i alluogi ysgolion i ddylunio a chyflwyno eu cwricwla
- cynnwys wedi'i adnewyddu i gefnogi'r themâu trawsgwricwlaidd a ffocws ar y pedwar diben
- ystod ehangach o ddulliau asesu a fydd yn fwy perthnasol a diddorol i ddysgwyr
- mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol i ddarparu asesiadau dilys, perthnasol a deniadol a chefnogi addysgu a dysgu

3. Gweledigaeth ar gyfer cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd

3.1. Gan weithio gyda rhanddeiliaid, fe wnaethom gyd-greu gweledigaeth ar gyfer dylunio cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd.

3.2. Gyda'n gilydd, cytunwyd y dylai cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru:

- helpu dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm
- cynnig hyblygrwydd a dewis i ysgolion ddiwallu anghenion eu cwricwla a'u dysgwyr
- adlewyrchu egwyddorion datblygu'r Cwricwlwm
- galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus i ddysgu a hyfforddiant ôl-16
- darparu dewis teg a hollol ddwyieithog o gymwysterau a llwybrau
- cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol
- hyrwyddo profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol
- annog dysgwyr i wneud cysylltiadau ystyrlon ar draws eu dysgu
- cynnwys dulliau asesu perthnasol, dilys ac atyniadol
- adlewyrchu amrywiaeth dysgwyr a'r byd y maent yn byw ynddo
- gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol

3.3. Rydym wedi cyhoeddi papur gwaith a ddefnyddiwyd gennym gyda rhanddeiliaid i roi golwg fanylach ar y gwahanol ystyriaethau a drafodwyd gennym wrth gyd-greu ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau TGAU newydd Gwneud i Gymru.

4. Dull gweithredu

4.1. Ym mis **Hydref 2021** a mis **Ionawr 2022**, yn dilyn **ymgynghoriad cynharach**, gwnaethom gyhoeddi'r ystod o bynciau TGAU a fydd ar gael i gefnogi'r Cwricwlwm. Aethom ati wedyn i weithio'n agos gydag ystod eang o gyfranwyr i gyd-greu cynigion ar gyfer sut y gellid dylunio'r cymwysterau newydd hyn.

4.2. Er mwyn cyd-greu'r cynigion dylunio ar gyfer 26 o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd, buom yn gweithio gyda mwy na 30 o weithgorau ar lefel pwnc a fforymau rhanddeiliaid ehangach. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys ystod eang o gyfranwyr, gan gynnwys dysgwyr, athrawon, darlithwyr, arholwyr, rhieni, cyflogwyr, cyrff dysgedig a phroffesiynol, grwpiau diddordeb pwnc, a phrifysgolion a cholegau addysg bellach.

4.3. Rhwng 4 Hydref a 14 Rhagfyr 2022, gwnaethom ymgynghori'n gyhoeddus ar y cynigion dylunio hyn ar gyfer cymwysterau TGAU, i ofyn a fyddent yn helpu dysgwyr i wireddu dibenion a nodau'r Cwricwlwm.

4.4. Cawsom gyfanswm o dros 2,100 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gwnaethom ddadansoddi'r ymatebion yn systematig a gweithio gyda'n grwpiau datblygu ar y cyd i drafod mireinio'r cynigion dylunio a datblygu gofynion (meini prawf cymeradwyo) ar gyfer sut y bydd rhaid dylunio pob cymhwyster TGAU newydd. Ar gyfer rhai pynciau, gwnaethom ailedrych ar benderfyniadau a wnaed yn dilyn ein hymgynghoriad cynharach.

4.5. Gallwch ddarllen esboniad llawn o'n methodoleg a'n dull gweithredu yn y ddogfen ategol ar wahân.

5. Gofynion cyffredin ar gyfer dylunio cymwysterau TGAU

5.1. Mae'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd yn nodi set gydlynol o ofynion ar gyfer sut y mae'n rhaid dylunio'r cymwysterau hyn. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd ac amrywiaeth ar draws gwahanol bynciau.

5.2. Er mwyn sicrhau bod y gyfres lawn o gymwysterau TGAU yn gydlynol, rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar nodweddion ac egwyddorion dylunio cyffredin sy'n gosod sail i'n gofynion.

Diben

5.3. Rhaid i bob cymhwyster TGAU newydd gael ei gynllunio i gyflawni set gyffredin o ddibenion, yn ogystal â dibenion ac amcanion penodol i bob pwnc. Mae'n rhaid i bob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru:

- fod wedi'i ddylunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
- adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae dysgwyr wedi'i datblygu trwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
- cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudiaeth ôl-16 a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad dysgwyr mewn pwnc sy'n tynnu sylw at yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod, ei ddeall a'i wneud

Lefel

5.4. Rhaid i bob cymhwyster TGAU gael ei ddylunio i asesu cyflawniad dysgwyr ar draws Lefel 1 a Lefel 2 o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

Maint

5.5. Rhaid i bob cymhwyster TGAU gael ei ddylunio i'w astudio yn bennaf gan ddysgwyr 14-16 oed ar draws cwrs astudio o ddwy flynedd – hynny yw, gan ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11.

5.6. I ddisgrifio maint cymwysterau unigol, rydym yn cyfeirio at oriau dysgu dan arweiniad. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif eang o'r amser addysgu sydd ei angen i gyflwyno pob cymhwyster.

5.7. Rydym wedi gwneud newidiadau i'r maint a gynigiwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth, TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth, a TGAU Mathemateg a Rhifedd. Yn ein hymgynghoriad, gwnaethom gynnig y byddai'r cymwysterau newydd hyn yn cyfateb yn fras o ran maint i 1.5 TGAU. Rydym bellach wedi penderfynu y bydd y cymwysterau hyn yn cael eu cynnig fel cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl. Yn y Gymraeg, Saesneg a'r gwyddorau, rydym hefyd wedi penderfynu cyflwyno cymwysterau TGAU integredig, dyfarniad sengl – rydym yn dweud mwy am y penderfyniadau hyn yn hwyrach yn y crynodeb hwn.

5.8. Mae'r penderfyniadau hyn yn golygu mai dim ond dau fath o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru fydd ar gael, fel mae'r tabl isod yn disgrifio.

Maint TGAU	**Oriau dysgu dan arweiniad**
Cymwysterau TGAU dyfarniad sengl – e.e. Celf a Dylunio, Hanes, Bwyd a Maetheg.	120 i 140
Bydd cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl ar gael yn: • Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth • Saesneg Iaith a Llenyddiaeth • Mathemateg a Rhifedd • Y Gwyddorau	240 i 280

5.9. I fod yn glir, **ni fydd** y diwygiadau hyn yn arwain at gymwysterau TGAU sy'n cyfateb o ran maint i 1.5 TGAU.

5.10. Rydym hefyd wedi penderfynu na fydd cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ar gael fel cymwysterau cwrs byr. Ar hyn o bryd, cynigir cymwysterau TGAU cyrsiau byr mewn addysg gorfforol ac astudiaethau crefyddol. Gwnaeth ein hymgynghoriad diweddar ar y cynnig llawn o gymwysterau 14-16 holi barn ar ddewisiadau amgen i'r cymwysterau hyn.

Graddio

5.11. Bydd pob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru yn cael ei raddio o *A** i *G*. Gallwch ddarllen mwy am ein rhesymau dros gadw'r drefn raddio hon yn yr adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad.

5.12. Ar gyfer cymwysterau TGAU dyfarniad sengl, bydd dysgwyr yn ennill un radd.

5.13. Ar gyfer cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl, bydd dysgwyr yn derbyn dwy radd (rhwng *A*A** a *GG*). Bydd hyn yn dangos bod y cymwysterau hyn tua dwywaith maint cymhwyster TGAU nodweddiadol. Byddwn yn cadarnhau'r gofynion manwl ar gyfer sut y bydd graddau dyfarniad dwbl yn cael eu hadrodd ar dystysgrifau yn ddiweddarach eleni.

5.14. Bydd perfformiad dysgwyr sy'n sefyll TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) mewn bioleg, cemeg a ffiseg yn cael ei adrodd ar wahân ar eu trawsgrifiadau, gan ddefnyddio graddau *A** i *G*.

Alinio â'r Cwricwlwm i Gymru

5.15. Mae sicrhau bod dysgwyr yn cael y gorau o'r Cwricwlwm wedi bod wrth wraidd ein gwaith i gyd-greu dyluniad cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd.

5.16. Er bod y cymwysterau a gymerir gan ddysgwyr yn bwysig, ni allant, ac ni ddylent, gynrychioli'r ystod lawn o ddysgu a phrofiadau y bydd dysgwyr yn ei hennill wrth iddynt ddilyn y Cwricwlwm.

5.17. Er mwyn adlewyrchu uchelgais a dibenion y Cwricwlwm, rhaid i bob cymhwyster TGAU gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr wneud y canlynol:

- ystyried, trafod ac ymdrin â'r themâu trawsgwricwlaidd canlynol:
  - addysg cydberthynas a rhywioldeb
  - hawliau dynol
  - amrywiaeth
  - addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
  - cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
  - crefydd, gwerthoedd a moeseg
- datblygu eu sgiliau trawsgwricwlaidd o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- datblygu'r sgiliau sy'n hanfodol i bedwar diben y Cwricwlwm

5.18. Rhaid i gymwysterau TGAU newydd hefyd gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ymdrin â'r thema o gynaliadwyedd.

Strwythur cymwysterau

5.19. At ei gilydd, mae'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn cynnwys cymysgedd o strwythurau asesu llinol ac unedol. Mae hyn yn adlewyrchu'r modd yr aethom ati i gyd-greu'r gofynion dylunio ar gyfer pob pwnc TGAU.

5.20. Mae strwythur llinol yn golygu bod yr holl asesiadau'n cael eu marcio a'u graddio ar ddiwedd y cwrs. Gellir cwblhau unedau asesu di-arholiad yn gynharach yn y cwrs ond rhaid eu cyflwyno i'w marcio a'u graddio ar ddiwedd y cwrs.

5.21. Mae strwythur unedol (neu strwythur 'modiwlaidd') yn golygu bod dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân, gan roi cyfle iddynt gymryd rhai unedau cyn diwedd y cwrs. Ar gyfer cymwysterau TGAU unedol, rhaid i o leiaf 40% o'r asesiad ddigwydd ar ddiwedd y cwrs. Mae hyn yn sicrhau bod gradd

gyffredinol dysgwr yn adlewyrchu'n briodol yr wybodaeth a'r sgiliau y mae wedi'u hennill erbyn diwedd y cwrs. Mae sefyll uned yn gynnar yn golygu bod gan ysgolion a dysgwyr yr opsiwn, lle bo angen, i ailsefyll yr uned honno unwaith cyn cwblhau'r cymhwyster.

5.22. Mae set gymysg o gymwysterau TGAU llinol ac unedol yn sicrhau bod cyfanswm yr asesiadau ar draws pob cwrs ac ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn hydrin, yn gymesur, ac yn deg i bob dysgwr.

5.23. Wrth benderfynu pa bynciau fydd yn unedol ac yn llinol, gwnaethom ni ystyried ystod o ffactorau i sicrhau cydlyniad cyffredinol wrth hefyd barchu'r gwahaniaethau rhwng pynciau unigol. Rydym yn dweud mwy am y ffactorau hyn yn yr adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad.

5.24. Mae Atodiad 1 yn nodi pa bynciau TGAU Gwneud-i-Gymru fydd yn unedol a pha rai fydd yn llinol.

Cydbwysedd dulliau asesu

5.25. Mae'r cydbwysedd a'r cymysgedd o ddulliau asesu a fydd yn ymddangos mewn cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn amrywio ar draws pynciau.

5.26. Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi barn ar y cynigion ar gyfer sut y dylid asesu pob pwnc TGAU. Fe wnaethom hefyd esbonio'r nifer o ffactorau gwahanol y mae'n rhaid eu cydbwyso wrth benderfynu beth fydd y cyfuniad cywir o ddulliau asesu ar gyfer unrhyw bwnc penodol.

5.27. Nid yw unrhyw un math o asesu yn ei hanfod yn well nag unrhyw un arall; mae gan bob un ohonynt fanteision ac anfanteision y mae angen eu hystyried. Mae rhai mathau o asesu yn fwy addas nag eraill i fesur agweddau penodol ar bwnc.

5.28. Mae'r meini prawf cymeradwyo unigol ar lefel pwnc yn nodi'r gyfran ofynnol o asesiadau arholiad a di-arholiad ar gyfer pob cymhwyster TGAU.

5.29. Ar gyfer pob pwnc, ein nod oedd pennu'r cyfuniad mwyaf priodol o ddulliau asesu a fydd yn sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng dilysrwydd, dibynadwyedd, hydrinedd ac ymgysylltiad. Gallwch ddarllen mwy am sut rydym wedi anelu at gael y cydbwysedd yn iawn yn yr adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad.

5.30. Mae Atodiad 1 yn rhestru'r cydbwysedd gofynnol o asesiadau arholiad a di-arholiad ar gyfer pob cymhwyster TGAU newydd.

Dylunio asesiadau

5.31. Mae'r meini prawf cymeradwyo ar lefel pwnc yn nodi'r cydbwysedd rhwng asesiadau arholiad a di-arholiad y mae'n rhaid ei gynnwys ym mhob cymhwyster TGAU Gwneud-i-Gymru newydd.

5.32. Mae'r meini prawf cymeradwyo hefyd yn nodi a fydd asesiadau di-arholiad yn cael eu marcio gan ysgolion a'u cymedroli gan y corff dyfarnu neu'n cael eu marcio'n uniongyrchol gan y corff dyfarnu. Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi cynyddu, lle bo hynny'n bosibl, y gyfran o asesiadau di-arholiad y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu ei marcio, er mwyn helpu i fynd i'r afael â phryderon am yr effaith bosibl ar lwyth gwaith athrawon.

5.33. Term sy'n disgrifio amrywiaeth eang o wahanol fathau o asesu yw asesiad di-arholiad. Gellir disgrifio unrhyw asesiad nad yw'n cael ei lunio ar ffurf papur arholiad sy'n cael ei sefyll gan bob dysgwr ar yr un pryd fel asesiad di-arholiad.

5.34. Bydd y rhan fwyaf o asesiadau di-arholiad yn seiliedig ar dasgau neu friffiau a osodir gan y corff dyfarnu. Rhaid i'r corff dyfarnu roi arweiniad clir i ysgolion ar sut y dylid rhoi briff asesu mewn cyd-destun lle mae hyn yn nodwedd o'r asesiad.

5.35. Wrth nodi'r amodau ar gyfer cwblhau asesiadau di-arholiad gan ddysgwyr, byddwn yn gofyn i'r corff dyfarnu esbonio sut y bydd y gofynion arfaethedig yn sicrhau cydbwysedd priodol o **ddilysrwydd**, **ymgysylltiad**, **dibynadwyedd** a **hydrinedd** (am ddiffiniad o'r termau hyn gweler Adran J o'n Hamodau Cydnabod Safonol).

5.36. Er enghraifft, mae'n rhaid i'r amodau ar gyfer cynnal asesiadau sicrhau cyn belled ag y bo modd mai'r gwaith a gyflwynir gan ddysgwyr yw eu gwaith eu hunain. Felly, mae'n rhaid iddynt geisio osgoi creu risg y bydd rhai dysgwyr yn ennill mantais annheg, er enghraifft drwy dderbyn cymorth ychwanegol gartref neu drwy ddefnyddio adnoddau ar-lein, gan gynnwys rhaglenni deallusrwydd artiffisial. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i drefniadau ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad fod yn hydrin i ysgolion eu darparu ac yn hygyrch i bob dysgwr.

5.37. Mae'n rhaid i'r corff dyfarnu bennu'r rheolaethau y dylai dysgwyr eu dilyn i baratoi ar gyfer eu hasesiadau di-arholiad a'u cwblhau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, y deunyddiau a'r adnoddau y gall dysgwyr gael mynediad atynt wrth ymgymryd â'r dasg, lefel yr oruchwyliaeth, pa mor hir y gall dysgwyr ei dreulio yn cwblhau tasg, faint o weithiau y gall dysgwyr roi cynnig ar dasg, a ph'un a oes rhaid cynnal yr asesiad o fewn cyfnod penodol o amser.

5.38. Bydd cynyddu cyfran ac amrywiaeth yr asesu di-arholiad ar gyfer cymwysterau TGAU yn golygu y bydd dysgwyr, at ei gilydd, yn gwneud mwy o dasgau asesu nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at fwy o lwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag asesu i ysgolion. Er mwyn sicrhau hydrinedd, rhaid i'r corff dyfarnu ddangos ei fod wedi ystyried goblygiadau ei drefniadau asesu ar adnoddau ysgolion a llwyth gwaith athrawon yn ofalus.

Haenu

5.39. Ac eithrio dau bwnc, ni fydd cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd sydd yn cael eu hasesu drwy arholiad yn cynnwys gwahanol haenau o asesu. Mewn cymwysterau di-haen, mae pob dysgwr sy'n sefyll arholiad yn ateb yr un cwestiynau ac yn gallu cyrchu yr ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael.

5.40. Bydd asesiadau haenog mewn TGAU Mathemateg a Rhifedd a TGAU Y Gwyddorau. Yn y pynciau hyn, bydd gan ddysgwyr y dewis o eistedd naill ai papurau haen sylfaen neu haen uwch.

Defnyddio technoleg ddigidol wrth asesu

5.41. Rydym wedi penderfynu cynyddu'r defnydd o asesiadau digidol mewn rhai pynciau, ond nid ymhob un.

5.42. Rydym wedi gwneud asesu digidol ac ar sgrin yn ofynnol dim ond lle'r ydym yn hyderus y byddai'n gwella dilysrwydd yn yr asesiad. Fe wnaethom hefyd ystyried goblygiadau hydrinedd i ysgolion, gan gynnwys cyfran y dysgwyr sy'n debygol o fod yn astudio cymhwyster penodol mewn ysgolion unigol.

5.43. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau y bydd ysgolion yn gallu cyflwyno asesiadau digidol gyda'r dechnoleg a'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion ar hyn o bryd.

5.44. Mewn pynciau fel cyfrifiadureg, technoleg ddigidol, a'r cyfryngau digidol a ffilm, mae asesiadau digidol yn gyd-fynd yn glir â'r cynnwys y bydd dysgwyr yn ei astudio.

5.45. Rydym yn gofyn i bynciau eraill, fel cerddoriaeth a drama, gynnwys elfen o asesu ar y sgrin fel bod pob dysgwr yn gallu cael gafael ar gynnwys sain a fideo digidol, ac ymateb iddo, yn yr arholiad.

5.46. Ar gyfer cymwysterau TGAU ym maes dyniaethau'r Cwricwlwm, rydym yn disgwyl i'r corff dyfarnu gyflwyno elfen o arholi ar y sgrin o fewn y pum mlynedd gyntaf o'u cyflwyno. Bydd hyn yn caniatáu amser i archwilio a threialu dulliau

digidol o asesu yn y pynciau hyn ac yn rhoi sylfaen gadarn i ysgolion ar gyfer cynllunio a buddsoddi yn eu capasiti digidol.

Argaeledd ac amseriad asesu

5.47. Mewn cymwysterau llinol, bydd trefniadau ar gyfer cyflwyno tasgau asesu di-arholiad yn gysylltiedig â chyfres arholiadau'r haf. Hynny yw, bydd yn ofynnol i ysgolion gyflwyno asesiadau wedi'u cwblhau o fewn ffenestri cyflwyno a bennir gan y corff dyfarnu. Er y bydd y ffenestr gyflwyno wedi ei rhagnodi, mewn llawer o achosion bydd gan ysgolion hyblygrwydd o ran pryd y bydd dysgwyr yn cwblhau eu hasesiadau.

5.48. Ar gyfer cymwysterau unedig (oni nodir yn wahanol o fewn meini prawf cymeradwyo lefel pwnc), rhaid i o leiaf 40% o'r asesiad (naill ai asesiad di-arholiad, arholiad neu gyfuniad o'r ddau) ddigwydd ar ddiwedd y cwrs. Yn y rhan fwyaf o bynciau, bydd arholiadau ar gael yn ystod cyfres arholiadau'r haf yn unig.

Safonau a chymaroldeb

5.49. Er mwyn diogelu dysgwyr a sicrhau tegwch, bydd cymwysterau TGAU newydd yn cael eu dylunio a'u hasesu i sicrhau safonau a chanlyniadau lled debyg i'r set bresennol o gymwysterau TGAU. Mae hyn yn golygu, ar gyfer y carfanau cyntaf o ddysgwyr i sefyll y cymwysterau newydd, y bydd y canlyniadau cyffredinol yn eithaf tebyg i ganlyniadau TGAU presennol, a dylai dysgwyr gael graddau tebyg i'r hyn y byddent wedi'i gyflawni yn y cymwysterau presennol.

6. TGAU Cymraeg, TGAU Saesneg, TGAU Mathemateg a Rhifedd, a TGAU Y Gwyddorau

6.1. Y cynigion dylunio a dderbyniodd y nifer uchaf o ymatebion a'r lefelau uchaf o anghytuno oedd y rhai ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth[1], TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth, TGAU Mathemateg a Rhifedd, a TGAU Y Gwyddorau.

6.2. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ein penderfyniadau cynharach i leihau'r ystod o gymwysterau TGAU

[1] Bydd cymwysterau TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth yn cael eu cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn gallu cymryd y cymhwyster TGAU Cymraeg Craidd newydd ac rydym wedi cyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar wahân ar gyfer y cymhwyster hwnnw.

sydd ar gael yn y pynciau hyn, yn hytrach nag ar y cynigion dylunio ar gyfer y cymwysterau newydd yr oeddem yn ceisio barn arnynt.

6.3. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, penderfynom edrych eto ar a ddylid creu cymwysterau ychwanegol i eistedd ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU newydd yn y pynciau hyn. Buom yn gweithio'n helaeth gyda llawer o gyfranwyr gwahanol i nodi a gwerthuso gwahanol opsiynau.

6.4. Ar gyfer y pynciau hyn, rydym wedi gwneud y penderfyniadau a amlinellir isod. Wrth i ni weithredu'r penderfyniadau hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda:

- Llywodraeth Cymru i sicrhau cyngor ac arweiniad clir i ysgolion a dysgwyr er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd gorau dysgwyr
- colegau a phrifysgolion i sicrhau eu bod yn deall y newidiadau hyn ac yn eu hadlewyrchu yn eu gofynion a'u prosesau derbyn
- y corff dyfarnu, Llywodraeth Cymru a cholegau i sicrhau bod y cymwysterau hyn yn hydrin i ddysgwyr ôl-16

Cymraeg a Saesneg

6.5. Fe wnaethom ymgynghori ar gynigion ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth integredig newydd a TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth integredig newydd. Gwnaethom gynnig y byddai pob un o'r cymwysterau hyn yn cyfateb yn fras o ran maint i 1.5 TGAU.

6.6. Rydym wedi penderfynu y bydd pob un o'r cymwysterau hyn bellach yn cael eu datblygu a'u dyfarnu fel cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl. Ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU dyfarniad dwbl integredig newydd hyn, byddwn hefyd yn creu dau gymhwyster TGAU dyfarniad sengl integredig newydd.

6.7. Mae hyn yn golygu y bydd y cymwysterau TGAU integredig canlynol ar gael yn y pynciau hyn:

- TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth ***Dyfarniad Dwbl***
- TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth ***Dyfarniad Dwbl***
- TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth ***Dyfarniad Sengl***
- TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth ***Dyfarniad Sengl***

6.8. Mae'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd hyn yn nodi'r gofynion dylunio ar gyfer y dyfarniadau sengl a dwbl.

6.9. Mae'r penderfyniadau hyn yn cyd-fynd â chanllawiau'r Cwricwlwm yn y maes hwn, gan roi cyfle i bob dysgwr astudio a dilyn cymwysterau sy'n trin iaith a llenyddiaeth yn gyfannol. Maent yn osgoi dryswch ynghylch maint a gwerth canfyddedig gradd yn seiliedig ar gymhwyster maint 1.5 TGAU ac yn caniatáu i ddysgwyr ennill graddau sy'n adlewyrchu'n fwy cywir ac yn decach faint o gynnwys y maent wedi'i astudio.

6.10. Mae ein disgwyliadau o ran sut y bydd y cymwysterau TGAU newydd hyn yn cael eu cyflwyno fel a ganlyn:

- bwriedir cyflwyno cymwysterau dyfarniad dwbl a sengl ar draws cwrs dwy flynedd
- dylid ystyried y dyfarniad dwbl fel y llwybr mwyaf cyffredin a mwyaf addas i'r rhan fwyaf o ddysgwyr
- mae'r cymwysterau TGAU dyfarniad sengl yn y pynciau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer y dysgwyr hynny fyddai'n gallu cwblhau cymhwyster TGAU, ond y byddai maint y cynnwys yn y dyfarniad dwbl yn rhwystr sylweddol posibl i gyflawni iddynt
- gan adlewyrchu eu statws fel elfennau mandadol o'r Cwricwlwm, rydym yn rhagweld y bydd pob dysgwr yn treulio nifer debyg o oriau'n dysgu Cymraeg a Saesneg ym Mlynyddoedd 10 ac 11, waeth pa gymwysterau y maent yn eu hastudio
- bydd cymwysterau dyfarniad sengl yn cynnig opsiwn mwy hydrin i ddysgwyr ôl-16 sy'n ailsefyll eu cymwysterau TGAU i gyflawni eu gradd darged

Mathemateg a Rhifedd

6.11. Buom yn ymgynghori ar y dyluniad arfaethedig ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd integredig newydd. Gwnaethom gynnig y byddai'r cymhwyster newydd hwn yn cyfateb yn fras o ran maint i 1.5 TGAU.

6.12. Rydym wedi penderfynu y bydd y cymhwyster newydd hwn bellach yn cael ei ddatblygu a'i ddyfarnu fel TGAU dyfarniad dwbl.

6.13. Rydym wedi penderfynu **na fyddwn yn** creu cymhwyster TGAU dyfarniad sengl i eistedd ochr yn ochr â'r dyfarniad dwbl newydd hwn.

Y Gwyddorau

6.14. Fe wnaethom ymgynghori ar y dyluniad arfaethedig ar gyfer TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) a fyddai'n disodli'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth.

6.15. Rydym wedi penderfynu y bydd TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn parhau fel y prif gymhwyster gaiff ei sefyll gan y mwyafrif sylweddol o ddysgwyr 14-16 oed yng Nghymru.

6.16. Ochr yn ochr â'r cymhwyster newydd hwn, rydym hefyd wedi penderfynu creu cymhwyster TGAU dyfarniad sengl cyfunol newydd yn y gwyddorau. Bydd hwn yn cynnig llwybr amgen, mwy hygyrch i gyfran fach o ddysgwyr a allai elwa o ganolbwyntio ar faint llai o gynnwys dros gyfnod y cwrs. Disgwyliwn y bydd pob dysgwr yn treulio cyfnod tebyg yn astudio'r gwyddorau, pa bynnag gymwysterau y maent yn eu dilyn.

6.17. Rydym wedi cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl). Rydym yn gweithio gydag eraill i gyd-greu meini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Sengl). Byddwn yn cyhoeddi'r rhain ym mis Hydref 2023. Bryd hynny, byddwn yn cadarnhau a fydd y cymhwyster dyfarniad sengl newydd yn cael ei gyflwyno i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 neu fis Medi 2026.

7. Themâu cwmpasog a godwyd yn yr ymgynghoriad

7.1. Ar ôl dadansoddi ac ystyried yn systematig yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi llunio adroddiad cynhwysfawr ar wahân ar y prif themâu a godwyd mewn ymateb i'r cynigion yn gyffredinol. Mae'r adroddiad yn esbonio sut mae pob thema wedi llunio ein penderfyniadau a'n gwaith wrth ddiwygio cymwysterau TGAU. Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar y themâu cwmpasog a godwyd yn yr ymgynghoriad yma.

7.2. Gallwch ddarllen crynodeb lefel uchel o'r prif themâu a godwyd a sut mae'r rhain wedi llunio ein penderfyniadau yn y prif adroddiad ymgynghori.

8. Asesu effaith ein penderfyniadau

8.1. Er mwyn cefnogi ein penderfyniadau, rydym wedi diweddaru'r asesiad effaith integredig a gyhoeddwyd gennym fel rhan o'n hymgynghoriad ar gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru.

8.2. Mae ein hasesiad effaith integredig wedi'i ddiweddaru yn nodi yr effeithiau ychwanegol a nodwyd gennym yn ystod yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau hynny sy'n ymwneud â'n penderfyniadau ar argaeledd a dyluniad cymwysterau TGAU newydd mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a rhifedd, a'r gwyddorau.

8.3. Rydym wedi ei ddweud o'r blaen, er ein bod yn cydnabod yr angen i leihau baich ein cynigion, mae rhai effeithiau o ran cost a chyflawni yn anochel. Credwn fod ein penderfyniadau yn sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng yr ystyriaethau amrywiol, a bod yr effeithiau'n gymesur â'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn i gymwysterau gyd-fynd â'r Cwricwlwm, a chefnogi'r gwaith o'i weithredu.

8.4. I gael rhagor o fanylion am sut mae ein hasesiad o effeithiau posibl wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau a'n gwaith, gweler ein hasesiad effaith integredig wedi'i ddiweddaru.

9. Y daith i 2025 a thu hwnt



9.1. Yn y misoedd i ddod, byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid ar draws y system i helpu i sicrhau bod ysgolion ac athrawon yn cael eu hysbysu, eu cefnogi a'u paratoi'n dda ar gyfer cyflwyno cymwysterau 14-16 newydd.

9.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i nodi a sicrhau'r canllawiau, y dysgu proffesiynol a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflwyno a darparu'r cymwysterau TGAU hyn yn llwyddiannus. Rydym yn cefnogi'r gwaith hwn yn frwd.

9.3. Unwaith y bydd y cymwysterau newydd hyn yn cael eu cyflwyno, nhw fydd yr unig gymwysterau TGAU a ariennir yn gyhoeddus sydd ar gael yng Nghymru yn y pynciau hyn. Ar gyfer pynciau eraill (fel daeareg a'r gyfraith), rydym yn ystyried a ellid cynnig cymwysterau TGAU 9-1, a gynlluniwyd ar gyfer dysgwyr yn Lloegr, fel cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru, ac ar ba sail. Bydd ein dull gweithredu yn cael ei lunio gan ein hymrwymiad i sicrhau cynnig cymwysterau 14-16 cwbl ddwyieithog a chynhwysol sydd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm. Byddwn yn cadarnhau'r sefyllfa ar gyfer y pynciau hyn erbyn diwedd 2023.

9.4. Gwyddom o ddiwygiadau blaenorol ei bod yn bwysig gwneud y penderfyniadau cywir ynghylch pa mor gyflym y mae newid yn digwydd. Rydym wedi cytuno â Llywodraeth Cymru ar yr amserlen ar gyfer pryd y bydd y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ar gael.

9.5. Yn 2025, byddwn yn cyflwyno 20 o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd i'w haddysgu am y tro cyntaf. Bydd y cymwysterau TGAU cwbl newydd hyn mewn pynciau sefydledig yn galluogi ac yn cefnogi ysgolion i ddylunio a gweithredu eu cwricwla newydd.

9.6. Yn 2026, byddwn yn cyflwyno wyth TGAU Gwneud-i-Gymru newydd arall, yn bennaf mewn pynciau nad oeddent yn cael eu cynnig yn flaenorol fel cymwysterau TGAU. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser i ysgolion ddatblygu eu capasiti i gyflwyno'r pynciau TGAU newydd hyn, megis dawns ac astudiaethau cymdeithasol.[2]

9.7. Yn 2025 a 2026, bydd ysgolion yn dal i allu dewis o'r ystod eang o gymwysterau 14-16 (ac eithrio cymwysterau TGAU) sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.

9.8. O 2027, bydd yr ystod lawn o gymwysterau Gwneud-i-Gymru ar gael. Yn ddiweddar, rydym wedi ymgynghori â sut y gallem symleiddio'r dewis o gymwysterau sydd ar gael i egluro sut maent yn cefnogi'r Cwricwlwm ac i sicrhau dewis cwbl ddwyieithog, cynhwysol a theg i ysgolion a dysgwyr.

[2] Bydd fersiynau wedi'u diweddaru o ddau gymhwyster TGAU cymharol newydd (yr amgylchedd adeiledig a thechnoleg ddigidol) hefyd yn cael eu cyflwyno yn 2026.

10. Atodiadau

A. Tabl Strwythur ac Asesiadau Cymwysterau fesul Pwnc

Cymhwyster TGAU	Llinol neu unedig	Cyfran yr arholiad	Cyfran yr ADA
Addysg Gorfforol ac Iechyd	Llinol	40%	60%
Amgylchedd Adeiledig	Unedol	35%	65%
Astudiaethau Crefyddol	Unedol	60%	40%
Astudiaethau Cymdeithasol	Unedol	60%	40%
Busnes	Unedol	60%	40%
Bwyd a Maeth	Llinol	40%	60%
Celf a Dylunio	Llinol	0%	100%
Cerddoriaeth	Llinol	35%	65%
Cyfrifiadureg	Unedol	100%	0%
Ffilm a Chyfryngau Digidol	Llinol	30%	70%
Cymraeg Craidd	Llinol	50%	50%
Daearyddiaeth	Unedol	60%	40%
Dawns	Llinol	30%	70%
Drama	Llinol	30%	70%
Dylunio a Thechnoleg	Llinol	30%	70%
Hanes	Unedol	60%	40%
Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dyfarniad Dwbl)	Unedol	60%	40%
Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dyfarniad Sengl)	Unedol	60%	40%
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dyfarniad Dwbl)	Unedol	60%	40%
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dyfarniad Sengl)	Unedol	60%	40%
Iaith Arwyddion Prydain	TBC	TBC	TBC
Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant	Unedol	40%	60%
Ieithoedd Rhyngwladol (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg)	Llinol	50-55%	45-50%
Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl)	Unedol	100%	0%
Peirianneg	Unedol	40% (20% ymarferol)	60%
Technoleg Ddigidol	Unedol	40%	60%
Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl)	Unedol	90%	10%
Y Gwyddorau (Dyfarniad Sengl)	TBC	TBC	TBC
Cymwysterau nad ydynt yn TGAU			
Dyfarniad Lefel 2 Cymraeg Craidd Ychwanegol	Unedol	50%	50%
Dyfarniad Lefel 1 Rhif, Mesur, Data	Llinol (profi pan yn barod)	100%	0%
Dyfarniad Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol	Unedol	100%	0%

B. Llinell amser ar gyfer diwygio cymwysterau 14-16 newydd

Addysgu cyntaf o fis Medi 2025	**Addysgu cyntaf o fis Medi 2026**	**Addysgu cyntaf o fis Medi 2027**
Cymwysterau TGAU newydd mewn: - Celf a Dylunio - Drama - Cerddoriaeth - Bwyd a Maeth - Busnes - Daearyddiaeth - Hanes - Astudiaethau Crefyddol - Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth (Dyfarniad Sengl) - Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth (Dyfarniad Dwbl) - Cymraeg Craidd - Saesneg Iaith a Llenyddiaeth (Dyfarniad Sengl) - Saesneg Iaith a Llenyddiaeth (Dyfarniad Dwbl) - Ffrangeg - Almaeneg - Sbaeneg - Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl) - Cyfrifiadureg	Cymwysterau TGAU newydd mewn: - Dawns - Y Cyfryngau Digidol a Ffilm - Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant - Addysg Gorfforol ac Iechyd - Astudiaethau Cymdeithasol - Iaith Arwyddion Prydain - Dylunio a Thechnoleg - Peirianneg Yn ogystal â chymhwyster Lefel 2 newydd mewn Mathemateg Ychwanegol. A chymwysterau TGAU wedi eu diweddaru mewn: - Yr Amgylchedd Adeiledig - Technoleg Ddigidol	Yn ogystal â'r cymwysterau a restrir yn y colofnau i'r chwith, bydd ysgolion yn gallu dewis o blith ystod gynhwysol a dwyieithog o gymwysterau newydd wedi'u diweddaru sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r Cwricwlwm. Bydd y cymhwyster Lefel 1 Rhif, Mesur a Data bellach yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cynnig llawn o gymwysterau 14-16 a fydd yn dod i rym yn 2027.

- Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) - Y Gwyddorau (Dyfarniad Sengl)[3] Yn ogystal â chymhwyster Lefel 2 newydd mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol.		
Pan gyflwynir cymwysterau newydd, byddant yn disodli'r cymwysterau presennol yn y pynciau hynny. Bydd cymwysterau eraill yn parhau i fod ar gael ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU newydd nes bod y cynnig llawn o gymwysterau 14-16 yn cael ei gyflwyno.		

[3] Byddwn yn cadarnhau yn hydref 2023 a fydd y cymhwyster TGAU Y Gwyddorau dyfarniad sengl newydd yn cael ei gyflwyno i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025.